## Coed Bach Radley, Coed Mawr Radley ac Afon Tafwys.

Gadewch y maes parcio Radley a throwch i'r dde. Croeswch y briffordd.

Trowch i'r dde a cherdded heibio'r fynedfa i Goleg Radley. Yn fuan mae giât ar y chwith.

Ewch trwy'r giât i mewn i dir Coleg Radley. Mae'r llwybr yn mynd heibio'r tai staff ac yn troi i'r dde.

Ewch ymlaen heibio rhai o'r cyfleusterau chwaraeon. Mae llwybr yn mynd i'r chwith trwy'r coed. Mae'r Coed Bach yn gul iawn yma. Mae yna fwy o gaeau chwaraeon i'r chwith a'r dde.

Trowch ychydig i'r chwith lle mae'r llwybr yn rhannu'n ddau. Peidiwch â chrwydro ymlaen i'r cae - dyw Coleg Radley ddim yn hoffi hynny.

Mae giât allan o'r coed i mewn i lwybr. Trowch i'r dde, cerddwch heibio'r coed ac ar draws dau gae i Sugworth Lane. Croeswch y ffordd a dringwch y gamfa i mewn i Goed Mawr Radley. ("Bigwood" i bobl leol, ond "Radley Large Wood" ar fapiau.) Yn y gwanwyn mae yna lawer o glychau'r gog yn y coed.

Dyw'r coed hwn ddim yn perthyn i Goleg Radley. Mae'n perthyn i deulu Dockar-Drysdale. Unwaith roedd y Cerddwyr yn cerdded trwy'r coed. Gofynnodd rhywun "Pwy sy biau'r coed?" Siaradodd dyn tawel am y tro cyntaf, "Fi sy biau'r coed" dwedodd e. Gaeth pawb synnu. Mr Dockar-Drysdale oedd e.

O'r gamfa, trowch i'r dde, yna ar unwaith ar lwybr bach i'r chwith. Mae'r llwybr hwn yn rhedeg wrth ochr y prif lwybr, ond mae'n uwch, mae llai o fwd, ac mae'r clychau'r gog yn well. Ar ddiwedd y llwybr (os dw i ddim yn mynd ar goll) dyn ni'n dringo i lawr i'r chwith i'r prif lwybr. Trowch i'r dde, croeswch bont fach ac ewch trwy giât.

Dyma Gae Coffa Kennington. Mae'r cae i gofio chwe dyn y pentref oedd yn gaeth ei ladd yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'r "Oxford Preservation Trust" yn rheoli'r cae. Mae'r cae yn Safle Bywyd Gwyllt Lleol "Local Wildlife Site". Weithiau mae gwartheg yn pori yno ond gobeithio byddan nhw ddim yn gwneud trwbl i ni.

Trowch i'r dde a cherddwch yn syth ymlaen at giât. Dyn ni wedi cyrraedd y briffordd trwy Kennington a'r bws rif 35. Mae safle bysiau gerllaw. Croeswch y ffordd, troi i'r dde, ac wedyn i'r chwith i lwybr cul rhwng y tai i Poplar Grove. Trowch i'r dde a cherdded i ddiwedd Poplar Grove. Mae llwybr sy'n mynd heibio'r fynwent i Sandford Lane. Trowch i'r chwith o dan y bont rheilffordd. Dyn ni'n gallu gweld lôn seiclo newydd ar y chwith. Nawr mae lôn seiclo dda o Sandford Lane i Rydychen. Yn anffodus, mae rhaid i'r seiclwr mynd ar y ffordd i Radley ac i Thrupp Lane cyn dod o hyd i'r lôn seiclo i Abingdon. Hoffai cyngor plwyf Radley wneud lôn seiclo ger y rheilffordd o Sandford Lane i orsaf Radley. Mae'n anodd, achos mae ychydig o bobl yn piau'i dir a rhai ohonyn nhw ddim yn moyn cael lôn seiclo. Cerddwch ymlaen ar hyd Sandford Lane i faes parcio. Trowch i'r dde trwy'r maes parcio. Dyma'r llwybr Tafwys. Ewch ymlaen ar hyd llwybr Tafwys.

Ar ôl tua 0.8 milltir mae llwybr ar y dde. Mae hyn yn mynd trwy goed ac ar draws cae. Ar ôl cyrraedd lôn, trowch i'r chwith.

Mae'r lôn yn mynd i Radley Isaf. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i Radley.